Rhys Howard Hughes
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc /
Director of Education, Skills and Young People

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / Tel: 01248 752901

Gofynnwch am / Ask for:
Ffôn / Tel: 01248 752 342
E-bost / E-mail:

Ein Cyf / Our ref:
Eich Cyf / Your Ref:

SWYDDOGOL SENSITIF / OFFICIAL SENSITIVE

Annwyl Riant/Gofalwr,

Gobeithiwn eich bod oll yn cadw'n iawn ac yn ddiogel yn ystod yr amseroedd anodd hyn. Diolch am eich cefnogaeth, eich dealltwriaeth a'ch amynedd dros y tri mis diwethaf. Rydym yn ddiolchgar i chi gyd am bopeth yr ydych wedi ei wneud i gynorthwyo dysg eich plentyn yn ystod yr amser hwn, ac am feithrin partneriaeth loyw gydag ysgolion. Mae Penaethiaid a staff ein hysgolion hefyd wedi bod yn ardderchog yn y ffyrdd y maent wedi cadw'r dysgu i fynd, a hoffwn ddiolch iddynt am eu hymrwymiad, eu hymdrech a'u harloesedd.

**Ailgydio, Dal i Fyny, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi**

Fel y gwyddoch, o ddydd Llun 29 Mehefin, bydd ysgolion yn dechrau derbyn eu disgyblion eu hunain i fynychu sesiynau penodol yn eu hysgolion eu hunain er mwyn ailgydio, dal i fyny gyda'u cyfoedion a'u hathrawon / staff cefnogol, ac i baratoi ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf. Nid yw hyn yn golygu y bydd ysgolion yn mynd "yn ôl i'r normal", bydd addysg yn parhau i gael ei chynnig dros lwyfannau digidol a phecynnau gwaith fel yr hyn sydd ar waith gan ysgol eich plentyn ar hyn o bryd. Er y bydd y profiad o "ailgydio, dal i fyny a pharatoi" yn amrywio rhwng ysgolion, bydd y ffocws lle bo modd ar ymateb i anghenion iechyd emosiynol a lles disgyblion ac ar sicrhau bod parhad rhwng y cymorth sydd wedi ei leoli yn yr ysgol a'r dysgu o gartref. Ni fydd bob disgybl yn mynychu'r ysgol ar unwaith, a ni fydd cyfanswm y disgyblion mewn unrhyw ysgol ar unwaith yn uwch na thraean cyfanswm y disgyblion a fyddai'n mynychu'r ysgol fel rheol. Bydd pob ysgol unigol (mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Dysgu Môn) yn gwneud penderfyniadau ar sut i agor ac ar ba grwpiau oedran fydd yn cael eu blaenoriaethu, a gall gymryd peth amser cyn iddynt gyrraedd y lefel hon o weithredu. Bydd ysgol unigol eich plentyn yn cysylltu â chi ynglŷn â'r trefniadau hyn, ac yn amlinellu beth fydd eich plentyn/plant yn ei wneud yn yr ysgol yn ystod yr amser hwn.

Mae'n ddealladwy y bydd rhai ohonoch chi a'ch plant yn bryderus ac y bydd gennych gwestiynau. Fodd bynnag, bydd ysgolion yn ymgysylltu â rhieni/gofalwyr i'w hysbysu ynglŷn â'r cynlluniau i ail-agor ac i ddarparu sicrwydd lle bod angen. Mae gennych hefyd yr hawl i ddewis a fyddwch yn anfon eich plentyn/plant i'r ysgol ai peidio. Os ydych yn penderfynu peidio, bydd eich plentyn/plant yn parhau i dderbyn yr un gefnogaeth cartref-i'r-ysgol y maent wedi ei derbyn hyd yn hyn.

Cofiwch fod Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio'n agos ag ysgolion a'i bartneriaid i sicrhau bod arweiniad a chymorth ar waith i gynorthwyo dychweliad mor ddiogel â phosib i'ch plentyn i'r ysgol.

**Cymorth gofal plant argyfwng**

O ddydd Llun 29 Mehefin (tan ddiwedd y tymor), bydd gofal plant argyfwng yn cael ei ddarparu yn ysgol eich plentyn.

Dim ond plant sy'n fregus iawn a phlant gweithwyr allweddol y mae eu gwaith yn hanfodol ar gyfer yr ymateb i COVID-19 dylai fynychu yn ystod yr amser hwn (mae rhestr o gategorïau gweithwyr allweddol wedi ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru). Os ydych yn weithiwr allweddol ond yn gallu cyflawni'r rhannau hanfodol o'ch swydd yn effeithiol o gartref, dylech wneud hynny. **Dim ond ar gyfer teuluoedd lle nad oes opsiwn diogel arall y mae'r ddarpariaeth hon.** Os yw un rhiant yn weithiwr allweddol ond nid yw'r rhiant arall, dylai'r rhiant arall ddarparu trefniadau amgen diogel yn y cartref lle bo modd. Os ydych dal i fod angen mynediad at y ddarpariaeth hon, cysylltwch ag ysgol eich plentyn.

Bydd rhagor o wybodaeth ynglŷn â darpariaeth gofal plant argyfwng yn ystod cyfnod gwyliau'r haf yn cael ei darparu maes o law.

Diolch unwaith eto am eich cymorth a'ch dealltwriaeth.

Cofion

**Rhys Howard Hughes**
**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc**
**Director of Education, Skills and Young People**

Rhys Howard Hughes
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc /
Director of Education, Skills and Young People

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / Tel: 01248 752901

Gofynnwch am / Ask for:
Ffôn / Tel: 01248 752 342

SWYDDOGOL SENSITIF / OFFICIAL SENSITIVE

Ein Cyf / Our ref:
Eich Cyf / Your Ref:

Dear Parent/Carer,

We hope that you are all safe and well during these challenging times. Thank you for your support, understanding and patience over the past three months. We are grateful to you all for everything you have done to assist your child's learning during this time, and in nurturing a vibrant partnership with schools. Our Headteachers and school staff have also been fantastic in the way they have kept learning going, and we would also like to thank them for their commitment, effort and innovation.

**Check in, Catch up and Prepare for Summer and September**

As you will be aware, from Monday 29 June, 2020, schools will start to accept their own pupils to attend identified sessions at their own school in order to check in, catch up with their peers and teachers / support staff, and prepare for the next school year. This does not mean that schools will go "back to normal", education will continue to be offered over digital platforms and work packs as is now operational by your child's school. Whilst the "check in, catch up and prepare" experience will vary from school to school, the focus where possible, will be on responding to pupils' emotional health and wellbeing needs and on ensuring that there is continuity between school-based support and home learning. All pupils will not be attending the school at any one time, the total number of pupils in any school at any one time will not exceed one third of the total number of pupils who would normally attend that school. Each individual school (in collaboration with Anglesey Learning Service) will make decisions on how they will open and which age groups will be prioritised, and it may take some time before they reach this level of operation. Your child's individual school will contact you about these arrangements, as well as outline to you what your child[ren] will be doing at school during this time.

It is understandable that some of you and your children will be anxious and have questions. However, schools will be engaging with parents/carers to inform them of their reopening plans and to provide reassurances where they are needed. You are also free to decide

whether to send your child[ren] to school or not. If you choose not to, your child[redn] will continue to receive the same home-to-school support they have received so far.

Please be assured that Anglesey County Council is working closely with schools and its partners to ensure that guidance and support is in place to assist your child's return to school is as safe as possible.

**Emergency childcare support**


From Monday 29 June (until the end of term), emergency childcare will be provided at your child's own school.

Only particularly vulnerable children and the children of critical workers whose work is critical to the COVID-19 response should be attending during this time (a list of categories of critical workers has been published on the Welsh Government website). If you are classed as a critical worker but are able to perform the critical parts of your job effectively when working from home, then you should do so. **This provision will only be made where there is no safe alternative for your family.** If one parent is a critical worker but the other parent is not then the other parent should provide safe alternative arrangements at home when possible. Should you still require access to this provision, please contact your child's school.

Further information in respect of emergency childcare provision during the school summer holiday period will be provided shortly.

Thanking you once again for your support and understanding.

Regards,



**Rhys Howard Hughes**
**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc**
**Director of Education, Skills and Young People**